



CABINET ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWDYD O BELL DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER 17 MAWRTH 2021 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelwch y Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), L. Phipps (Tai a Lleoedd), J. Ridgewell (Yr Amgylchedd ac Isadeiledd), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), M. Jacques (Swyddog Craffu), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a'r Swyddog Adran 151), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Gyrrwr), J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 17 Mawrth 2021 a 21 Ebrill 2021. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Diolchodd y Cabinet i Swyddogion am y Flaenraglen Waith estynedig a nododd ei bod wedi bod yn anodd rhoi golwg bellach ar adroddiadau a drefnwyd oherwydd y Pandemig parhaus.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. ADRODDIAD DROS DRO GAN Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR DALIADAU GOFAL DIBRESWYL

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am yr ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen i godi tâl ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl yn y Fwrdeistref Sirol. Cynhelir yr ymchwiliad hwn gan is-grŵp o Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a chynhaliwyd eu cyfarfod cychwynnol ar 25 Medi 2019.

Argymhellodd yr adroddiad i'r Cabinet ei fod yn ymestyn y cynnydd presennol yn y gyfradd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Byddai hyn yn caniatáu i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen barhau â'i ymchwiliad a drafftio argymhellion i'r Cabinet eu hystyried o ran codi tâl am ofal dibreswyl o 2022/23 ymlaen.

Rhoddodd yr adroddiad grynodedb byr o'r wybodaeth a ddaeth i law gan Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyd yma, ac amlinellodd sut mae'r tarfu a achoswyd gan bandemig Covid-19 wedi golygu nad yw'r argymhellion terfynol wedi'u cyrraedd eto ac felly ni ellir eu cymhwyso i'r cyfraddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gefndir yr ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen presennol i godi tâl am ofal dibreswyl yn y Fwrdeistref Sirol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Holodd Aelod o'r Cabinet a fyddai'r argymhelliad yn effeithio ar fforddiadwyedd gwasanaethau i ddefnyddwyr. Sicrhodd swyddogion yr Aelodau, er mai ffioedd Caerffili yw un o'r isaf yng Nghymru, bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael prawf modd i benderfynu ar ei fforddiadwyedd. Ar hyn o bryd mae hyd at 40% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gwasanaeth yn rhad ac am ddim o ganlyniad i brawf modd, a fydd yn parhau i gael eu cymhwyso ar gyfer gwasanaethau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddog, y dylid ymestyn y penderfyniad i gynyddu taliadau dibreswyl 10% y flwyddyn am gyfraddau fesul awr, ac 20% y flwyddyn ar gyfer cyfraddau dyddiol, am flwyddyn arall i'r flwyddyn ariannol 2021/22. Byddai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Daliadau Gofal Dibreswyl wedyn yn gwneud argymhellion i'r Cabinet eu hystyried ar y tâl o 2022/23 ymlaen.

6. CYHOEDDI DATA BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2020 – RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU PENODOL AC AWDURDODAU CYHOEDDUS) 2017

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyhoeddi datganiad ysgrifenedig bwllch cyflog rhwng y rhywiau'r Awdurdod ar gyfer 2020.

Nodwyd ei fod yn ofynnol, dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, i bob sefydliad a restrir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau, sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr, i adrodd yn flynyddol ar eu bwllch cyflog rhwng y rhywiau o 2017.

Dim ond i gyflogeion a benodir ac a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor y mae'r darpariaethau o dan y Rheoliadau hyn yn gymwys. Nid yw'n ofynnol i weithwyr sy'n cael eu penodi a'u rheoli gan benaethiaid ysgolion/Cyrff Llywodraethu gael eu cynnwys o fewn cwrmpas Data Bwllch Cyflog rhwng y Rhywiau'r Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa unigryw o ran deddfwriaeth cyflogaeth lle mae pob cyflogai ysgol yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol, ond penaeithiaid/cyrff llywodraethu sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch penodi a rheoli gweithwyr o'r fath yn bennaf, fel sy'n briodol. Ni fydd yn ofynnol i Ysgolion Caerffili gyhoeddi ac adrodd ar eu ffigurau penodol eu hunain gan nad oes yr un Ysgol yn cyflogi mwy na 250 o staff.

Nodwyd ei bod yn ofynnol cyhoeddi data bwllch cyflog rhwng y rhywiau'r Cyngor ar ein gwefan ein hunain a gwefan y llywodraeth erbyn 30 Mawrth bob blwyddyn. Rhaid i'r data gynnwys y cyflog fesul awr, fel ffigur cymedrig, (gan nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflog dynion a menywod) a'r ffigur canolrif, (gan nodi'r gwahaniaeth rhwng y pwyntiau canol yn ystod cyflogau dynion a menywod). Anogir cyflogwyr i gynhyrchu datganiad ysgrifenedig yn esbonio'r data.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau cymedrig a chanolrif sy'n ymwneud â thaliadau bonws. Nododd y Cabinet nad yw'r Cyngor yn cynnig gwaith ar dasg na chynlluniau cymhelliant bonws.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddog y dylid cytuno ar y datganiad ysgrifenedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad sy'n manylu ar ddata bwllch cyflog rhwng y rhywiau i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth ar-lein gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd am fwllch cyflog rhwng y rhywiau.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.43am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2021.

CADEIRYDD